# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Tir Gofal (Land in Care) (Cymru) 1999, drwy ddiweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Ewropeaidd sydd bellach wedi'i diwygio ac wedi'i disodli.

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud drwy'r Weithdrefn Weithredol ar 15 Chwefror.

### Rheol Sefydlog 11.5

Gan eu bod wedi cael cyfle i fwrw golwg ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i godi nifer o bwyntiau sydd erbyn hyn wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

Mae'r mân wallau teipograffyddol canlynol wedi'u nodi. Dylent gael eu cywiro yn y fersiwn a gyhoeddir.

- Rheoliad 3(1) – atalnod llawn diangen ar ôl "Article 20" yn y testun Saesneg, a dyfynodau wedi'u hepgor ar ôl 13 yn y testun Cymraeg.
- Rheoliad 3(2) – dyfynodau heb eu cau ar ôl 12 yn y testun Saesneg.
- Rheoliad 3(3) – atalnod llawn diangen ar ôl "Article 48" yn y testun Saesneg.
- Rheoliad 3(4) – yn y testun Saesneg, atalnod llawn diangen ar ôl "Article 48(1)" ac atalnod llawn wedi'i hepgor ar y diwedd.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Mawrth 2001